

## Yr her:

Yn anffodus, mae nifer o ddigwyddiadau chwaraeon wedi eu canslo eleni e.e. Wimbledon, Ewros a'r gemau Olympaidd. Ond, yn lle gwyllo eleni, beth am greu achlysur eich hun? Fe allwch greu gem newydd gyda'ch teulu a'i droi mewn i dwrnamaint/dathliad/digwyddiad newydd ac unigryw.

Ond cyn ei greu, be am ymchwilio i rai sy'n bodoli eisoes?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Gallwch restrï gemau a mathau o chwaraeon yr ydych yn hoffi?
- Pa nodweddion sydd angen i fod yn chwaraewr da?
- Pa nodweddion sydd angen i fod yn aelod da mewn tîm?
- Oes yna math o chwaraeon newydd hoffech i drïo?
- Pa ddigwyddiadau sydd wedi, neu oedd i fod i ddigwydd eleni?
- Pryd oedden nhw i fod i ddigwydd?
- Pa chwaraewyr enwog sydd yn chwarae'r gemau?



# Cynllun pythefnos: Chwarae (Bl 3 & 4)

## Rhaid gwneud... / Must do...

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Dysgu geiriau aml-ddefnydd - rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.</li> <li>Darllen yn reolaidd- cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch - cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TTblast ar J2blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)</li> <li>Bl 3 - 2, 3, 4, 5 a 10</li> <li>Bl 4 - 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10</li> <li>Adio a thynnu</li> <li>Bl 3 i ddefnyddio rhifau 2 ddigid ee <math>67 + 45 =</math> / <math>86 - 34 =</math></li> <li>Bl 4 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee <math>467 + 382 =</math></li> <li>Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd</li> <li>Darllen yr amser fesul 5 munud ac yna pob munud</li> </ul> | <p><u>Cadw'n heini</u> - beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')</p> <p><u>Helpu</u> - Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.</p> <p><u>Trafod</u> - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.</p> |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## Dylech wneud... / Should do...

|  <b>Gorsaf Iaith</b>                                                                                                                                                                                                                           |  <b>Cyfri a Chyfrifo</b>                                                                                                                                                                                                                   |  <b>Cwtsh Creadigol</b>                                                                                             |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>★ Ewch ati i gasglu enwau chwaraeon amrywiol. Rhwch yr enwau mewn grid i greu chwilaer. Gofynnwch i aelod o'ch teulu i ateb y chwilaer. Cofiwch bydd sillafu cywir yn holl bwysig.</p> <p><b>Cofiwch, yn Gymraeg, un llythyren yw ch, dd, ff, ll, th, ng, ph, rh</b></p>                                                     | <p>★ Gemau Olympaidd ~ Rydych am gymryd rhan yn y Gemau Olympaidd. Ewch allan i'r ardd i ymarfer eich taflu. Defnyddiwch fag ffa neu bêl tenis. Mesurwch bellter eich taflad 3 gwaith. Cofnodwch eich pellter mewn metrau a chentimetrau.</p>                                                                               | <p>★ Dyluniwch git newydd ar gyfer eich hoff chwaraeon. Ystyriwch pa fath o git fyddai'n addas, y lliwiau a'r logo ar gyfer eich tîm. Gallwch ddefnyddio'r templed 'Kit Design' ar wefan yr ysgol.</p> |
| <p>★★ <b>Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae</b></p> <p>Mae chwarae yn un o'ch Hawliau chi. Beth am edrych ar boster o'r 42 hawl sydd gennych. Dewiswch un (neu gasgliad o erthyglau) i greu poster i hysbysebu eich hawliau. Mae croeso i chi i arall eirio'r erthygl i wneud yn fwy syml a dealladwy i blant ifanc.</p> | <p>★★ Diwrnod Chwaraewr Tennis yn Wimbledon ~ Mae gan chwaraewr tennis diwrnod prysur. Mae angen i chi i helpu i drefnu eu hamserlen gan ddweud yr amser. e.e. Am ___ o'r gloch bwytais fy mrecwast; Am ___ o'r gloch es i redeg. Mae enghraifft ar wefan yr ysgol. Nesaf, gallwch ysgrifennu'r amser ar gloc ddigidol.</p> | <p>★★ Dyfeisiwch gêm newydd. Casglwch yr offer sydd angen arnoch ac ysgrifennwch gyfarwyddiadau clir. Gallwch chi chwarae'r gêm gyda'ch teulu? Cofiwch ddilyn y rheolau!</p>                           |
| <p>★★★ Edrychwch ar daflen gwybodaeth FA Cup ar wefan yr ysgol. Ydych chi'n gallu ymchwilio digwyddiadau a thwrnameintiau eraill? Casglwch wybodaeth a chofnodwch ar daflen cynllun ac yna ysgrifennwch adroddiad diddorol.</p>                                                                                                 | <p>★★★ Cyfesurynnau Pêl Droed Ewro ~ Ar grid, gosodwch luniau o bethau sy'n ymwneud â phêl-droed e.e. cwpan, esgidiau, dyfarnwr, chwiban, crys, pêl. Ysgrifennwch gyfesurynnau'n gywir. Cofiwch i fynd ar draws yn gyntaf ac yna i fyny. Cofnodwch fel hyn: (6,3) Mae grid ar wefan yr ysgol i chi.</p>                     | <p>★★★ Cynhaliwch ymchwiliad i brofi effaith gwneud ymarfer corff ar gyfradd curiad eich calon. Defnyddiwch y templed 'Science Investigation' ar wefan yr ysgol i gofnodi eich gwaith.</p>             |

## Gallaf wneud... / Can do...

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                             |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Heriau LEGO</p> <p>Llyfrau sain David Walliams</p> <p>Newsround - darllen y newyddio diweddaraf</p> <p>ACTIV-I-TI - arlein o 1:00yp</p> <p>Science experiment</p> <p>Science Investigations - STEM website stemsational.com</p> <p>Adnoddau twinkl-Mynychwch y wefan am ddim</p> <p><a href="http://www.twinkl.co.uk/offer">www.twinkl.co.uk/offer</a> yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS</p> | <p>Minecraft</p> <p>Cymuned y Sgarlets- Sgiliau Mathemateg</p> <p>Carol Vorderman - 'My Maths School'</p> <p>Cip ar Fathemateg</p> <p>SGILIAU - gemau i'w chwarae adref</p> <p>Celf Helen Elliot - Pob dydd mercher a Gwener am 3:00yp</p> <p>Orielodl - fideo cam wrth gam</p> <p>Criw Celf, Huw Aaron - pob dydd am 3y.p</p> | <p>Dawnsio gyda Oti Mabuse</p> <p>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant</p> <p>BBC Bitesize</p> <p>Hour of Code</p> <p>Gwefan TopMarks Mathemateg</p> <p>Gwefan MathsFrame Mathemateg</p> <p><a href="http://mathsalamanders.com">mathsalamanders.com</a></p> |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|